Cofnodion cyfarfod electronig **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR**
a gynhaliwyd ar 4 Awst 2016

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carol Bell, Darpar Is-lywydd; Glenda Jones; Jessica Seaton; Rachel Hughes; Victoria Provis; Keshav Singhal; Hywel Ceri Jone;, Carys Howell, ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.	
1 CYMERADWYO BENTHYCIAD RHYNGWLADOL I GANOLFAN GELF BRYDEINIG IÂL, CONNETICUT (A PHALAS KENSINGTON, LLUNDAIN) 1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol a'r Ceidwad Celf. 1.2 Adroddwyd: Bod cais wedi'i wneud i'r Ymddiriedolwyr gytuno, trwy e-bost, i fenthyciad rhyngwladol. Mae Amgueddfa Cymru, yr Oriel Bortreadau Genedlaethol ac Amgueddfa Capten Cook yn gydberchnogion ar y darlun *Omai, Dr Banks a Dr Solander* gan William Parry. 1.3 Mae Canolfan Gelf Brydeinig Iâl yn Connecticut wedi gofyn am y gwaith ar gyfer arddangosfa o'r enw *Enlightened Princesses*. Bydd yr arddangosfa yn Iâl rhwng 3 Chwefror a 23 Ebrill 2017 cyn mynd ymlaen i Balas Kensington lle bydd rhwng 22 Mehefin a 12 Tachwedd 2017. Trefnir y benthyciad gan yr Oriel Bortreadau Genedlaethol ac ni fydd angen defnyddio adnoddau staff yr Amgueddfa mewn perthynas â'r benthyciad. Roedd y Grŵp Cynghori Celf wedi argymell cymeradwyo'r benthyciad. 1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod y benthyciad yn cael ei gymeradwyo.	